WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Datblygu Darpariaeth Llesiant i bob Plentyn a Pherson Ifanc: Archwiliad – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1644A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rhan o waith a wnaed yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a thrydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r tîm a wnaeth y gwaith hwn yn cynnwys Gareth Jones, Allison Rees ac Alice Rushby, rheolwyd y rhaglen gan Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Er bod partneriaid allweddol yn amlwg wedi ymrwymo, nid yw'r Cygnor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei ddarpariaeth lles i bob plentyn a pherson ifanc.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 7

Er bod partneriaid allweddol yn amlwg wedi ymrwymo, nid yw'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei ddarpariaeth lles i bob plentyn a pherson ifanc 7

Mae'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn integreiddio ei waith â phartneriaid allweddol 7

Mae'r Cyngor yn cydweithredu'n dda â rhai partneriaid i ddatblygu'r ddarpariaeth llesiant, a byddai ymgysylltu ag ystod lawnach o bartneriaid yn cael mwy o effaith 8

Mae gan y Cyngor ymrwymiad cryf i gynnwys partneriaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn natblygiad y ddarpariaeth llesiant. Fodd bynnag, nid yw plant a phobl ifanc wedi cael eu cynnwys hyd yma 10

Nid yw'r Cyngor hyd yma wedi egluro beth yw canlyniadau arfaethedig ei ddarpariaeth llesiant ac nid yw wedi datblygu cynllun cyflawni tymor hir hyd yma 11

Nid yw'r Cyngor hyd yma wedi pennu buddiannau ataliol cyflawni ei ddarpariaeth llesiant 13

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 14

Atodiadau

Atodiad 1: Dangosyddion Positif y Pum Ffordd o Weithio 26

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhaliwyd yr Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae gofyniad statudol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) i archwilio cyrff cyhoeddus er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. bennu eu hamcanion llesiant, a

b. chymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn ethol pob Cynulliad. Caiff yr adroddiad cyntaf o'r fath ei gyhoeddi yn 2020, cyn etholiad y Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf er mwyn llywio'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn wedi'u seilio ar waith maes a wnaed rhwng misoedd Mehefin a Hydref 2019.

6 Mae'r adroddiad yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o ddatblygu darpariaeth llesiant ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc, cam y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

7 Mae Rhan Dau o'r adroddiad hwn yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn a archwiliwyd

8 Buom yn archwilio i ba raddau mae'r Cyngor yn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu darpariaeth llesiant i bob plentyn a pherson ifanc.

9 Dechreuodd y Cyngor weithio ar ei ddarpariaeth llesiant i bob plentyn a pherson ifanc yn 2018-19. Canfu'r Cyngor fod llesiant plant a phobl ifanc o bwys hanfodol, nid yn unig er mwyn llesiant corfforol ac iechyd meddyliol ond hefyd oherwydd y cysylltiad rhwng llesiant a chyflawni potensial mewn bywyd.

10 Mae datblygiad y ddarpariaeth llesiant yn cyd-fynd ag amcan Cynllun Corfforaethol y Cyngor i godi cyrhaeddiad addysgol.

11 Mae'r ddarpariaeth llesiant yn ymdrechu i baratoi rhestr (cronfa ddata electronig) o'r holl weithgareddau a ddarperir ar hyn o bryd yn Nhorfaen i hybu llesiant plant a

phobl ifanc ar lefel gorfforol ac emosiynol. Bwriedir i'r gronfa ddata gynnwys yr holl weithgareddau a ddarperir gan y Cyngor a sefydliadau eraill. Bydd y gronfa ddata ar gyfer plant a phobl ifanc o'u genedigaeth nes eu bod yn 25 oed, a gall gynnwys darpariaethau ar wahân ar gyfer Blynyddoedd Cynnar, Cynradd, Uwchradd ac Oedolion Ifanc.

12 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr her o lunio un gronfa ddata sy'n cynnwys y 'ddarpariaeth llesiant' hon ac mae felly'n datblygu'r darpariaethau fesul cam:

a. Cam 1 – treialu'r ddarpariaeth llesiant gyda charfan fach o weithwyr proffesiynol yn ystod hydref/gaeaf 2019-20;

b. Cam 2 – cael adborth o'r treial, gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r ddarpariaeth lles a chaniatáu mynediad ati i'r holl weithwyr proffesiynol; a

c. Cam 3 – ymestyn y ddarpariaeth llesiant i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

13 Er mwyn gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r 'ffyrdd o weithio' canlynol:

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn dangos y 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion [1]'.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Y Tymor Hir**<br>Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| **Atal**<br>Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag codi neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integredig**<br>Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithredol**<br>Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl â buddiant mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei wasanaethu. |

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru, 2015

14 Canfu ein harchwiliad: **Er bod partneriaid allweddol yn amlwg wedi ymrwymo, nid yw'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei ddarpariaeth lles i bob plentyn a pherson ifanc**.

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Er bod partneriaid allweddol yn amlwg wedi ymrwymo, nid yw'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei ddarpariaeth lles i bob plentyn a pherson ifanc

### Mae'r Cyngor yn gallu dangos ei fod yn integreiddio ei waith â phartneriaid allweddol

#### Yr hyn y chwiliwyd amdano

15 Chwiliwyd am dystiolaeth o:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

16 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuwyd

17 Nodwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn gweithio â phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen (BGC) i ddatblygu'r gronfa ddata, ac mae cyflawni'r ddarpariaeth llesiant yn ategu blaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor i godi cyrhaeddiad addysgol, a allai gael effaith bositif ac amcanion llesiant y BGC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- mae gan y Bwrdd Iechyd amcan llesiant i 'leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd pobl yng Ngwent drwy weithio â'n partneriaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai â'r angen mwyaf'. Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd â nod y BGC i 'roi i blant a phobl ifanc y dechrau gorau posibl mewn bywyd'
- mae fframwaith adrodd ar berfformiad yn cael ei ddefnyddio i fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn nod y BGC bod 'pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd'. Y pedwar is-grŵp cyflawni sy'n helpu i gyflawni amcan y BGC yw: Blynyddoedd Cynnar, Llwybrau Positif, Ymgysylltu a Chyfranogi

[2] Gweler Atodiad 1

a'r Ddarpariaeth Llesiant. Mae'r pedwar grŵp yn adrodd yn chwarterol i'r Grŵp Adolygu Perfformiad Plant a Phobl Ifanc (CYPPRG), sy'n adrodd deirgwaith y flwyddyn i'r Bwrdd Gwella Plant a Phobl Ifanc (CYPB).

- Mae grŵp Llwybrau Positif y BGC yn cysylltu'n glos â grŵp darpariaeth llesiant y BGC ac mae'n amlygu unrhyw ddyblygu gwasanaethau a/neu adnoddau posibl i helpu i ddatblygu'r 'ddarpariaeth llesiant'
- Mae'r Cyngor yn deall pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cwricwlwm newydd yn 2022, y bydd angen i'r ddarpariaeth llesiant adlewyrchu hyn.

18 Rydym wedi nodi'r maes canlynol i'w wella:

- fel y nodwyd uchod, mae'r BGC yn defnyddio fframwaith i adrodd ar berfformiad i fonitro ei amcan, bod 'pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd'. Ar adeg ein gwaith maes nid oedd gan y Cyngor ddull corfforaethol i fonitro ac adolygu cynnydd yn rheolaidd i gyflawni ei amcanion llesiant. Dywedodd y Cyngor fod rôl y sesiynau Asesu Perfformiad Corfforaethol (CPA) yn cael eu hystyried fel fforwm posibl i fonitro cynnydd yn erbyn ei amcanion llesiant.

## Mae'r Cyngor yn cydweithredu'n dda â rhai partneriaid i ddatblygu'r ddarpariaeth llesiant, a byddai ymgysylltu ag ystod lawnach o bartneriaid yn cael mwy o effaith

### Yr hyn y chwiliwyd amdano

19 Gwelsom dystiolaeth fod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio ag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu i gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant yntau)
- yn cydweithredu'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw'r cydweithredu'n ei helpu neu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

20 Llywiwyd ein hamcanion gan y dangosyddion positif ar gyfer 'cydweithredu' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuwyd

21 Canfuwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn gweithio â gwahanol sefydliadau ac mae'r BGC yn cefnogi'r ddarpariaeth 'llesiant'

[3] Gweler Atodiad 1

- yn ystod 2018-19, cwblhaodd y Cyngor ymarferiad i fapio gwasanaethau perthnasol y Cyngor mewn un gronfa ddata electronig. Dechreuodd y Cyngor weithio â phartneriaid y BGC a grwpiau ehangach i ddeall pa rai o'r gwasanaethau a'r gweithgareddau a ddarperir ganddynt a ddylai fod yn rhan o'r ddarpariaeth llesiant
- bwriad y Cyngor wrth ddatblygu gwedd gyfannol tuag at ddarparu â phartneriaid, yw cydlynu gwasanaethau'n well gyda'r potensial i wneud defnydd gwell o ffrydiau cyllido yn y tymor hir
- mae'r BGC wedi sefydlu pedwar is-grŵp cyflawni i ategu amcan y BGC (bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd) ac mae hyn yn sicrhau bod partneriaid yn deall eu rolau, bydd yn hybu gweithio mewn partneriaeth a gall wella cyfathrebu rhwng partneriaid
- mae dull amlasiantaethol yn cael ei ddefnyddio i fapio'r gronfa ddata electronig. Mae ystod o bartneriaid yn bresennol yn is-grŵp Darpariaeth Llesiant y BGC gan gynnwys partneriaid mewnol o Ddiogelwch y Gymuned, Datblygu Chwaraeon, Gofal Cymdeithasol a Thai o Raglen T22 (trawsnewid) y Cyngor. Mae partneriaid allanol yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Heddlu Gwent, Cartrefi Melin, Bron Afon ac Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen. Maent yn rhannu'r nod o greu darlun cydlynus o'r ddarpariaeth llesiant i blant a phobl ifanc yn Nhorfaen
- mae'r Cyngor yn croesawu cydweithrediad ac mae'n agored i gydweithio.

22 Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- hyd yma, mae'r Cyngor wedi treulio dwy flynedd yn meithrin cysylltiadau â phartneriaid eraill i ddatblygu'r ddarpariaeth llesiant mewn un gronfa ddata gydag un pwynt cyswllt. Ar adeg ein hadolygiad, fodd bynnag, nid oedd y Cyngor wedi diffinio ei gerrig milltir tymor byr, canolog na hir ar gyfer darparu darpariaeth llesiant cydlynus yn electronig i blant a phobl ifanc, rhieni neu ofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc
- dylai'r Cyngor ystyried ymgysylltu â'r ystod o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i sicrhau bod pob gweithgarwch perthnasol yn cael ei gofnodi yn y ddarpariaeth llesiant
- Dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym fod ganddynt ddull sy'n canolbwyntio'n o ddifrif ar yr unigolyn wrth ddatblygu darpariaeth llesiant i bob plentyn a pherson ifanc. I sicrhau bod y ddarpariaeth llesiant yn un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae angen rhagor o waith rhwng partneriaid i edrych ar y gwahanol rwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar y ddarpariaeth llesiant y gallai gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc eu hwynebu
- Dywedodd swyddogion y Cyngor fod partneriaid mewn gwirionedd yn defnyddio systemau cofnodi data a chronfeydd data gwahanol ar gyfer eu cleientiaid eu hunain ac y byddai'n fuddiol i wybod pa bryd a pha

wasanaethau y gall plant a phobl ifanc eu defnyddio drwy'r ddarpariaeth llesiant.

## Mae gan y Cyngor ymrwymiad cryf i gynnwys partneriaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn natblygiad y ddarpariaeth lles. Fodd bynnag, nid yw plant a phobl ifanc wedi cael eu cynnwys hyd yma

### Yr hyn y chwiliwyd amdano

23 Rydym wedi chwilio am dystiolaeth bod y Cyngor wedi:

- canfod pwy ddylai gael eu cynnwys i ddylunio a chyflawni'r cam;
- cynnwys rhanddeiliaid allweddol yn effeithiol i ddylunio a chyflawni'r cam;
- defnyddio canlyniadau sy'n dangos eu bod wedi'u cynnwys i ffurfio'r gwaith o ddylunio a datblygu'r cam; ac
- wedi ymdrechu i ddysgu gwersi a gwella'r dull o gynnwys.

24 Llywiwyd ein harchwiliad hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer 'cynnwys' a nodwyd gennym ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuwyd

25 Canfuwyd y cryfderau canlynol:

- yn ystod 2018-19, fel rhan o'r ymarferiad mapio, dechreuodd y Cyngor edrych ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc agored i niwed. Yn benodol, bu'r Cyngor yn canolbwyntio ar wasanaethau cymorth yn ôl lleoliad ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o leoliadau addysgol a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sydd mewn perygl o fod yn NEET;
- rhwng Mehefin 2018 a Mai 2019, cymerodd y Cyngor a'r BGC benderfyniadau strategol i sicrhau eu bod yn cynnwys ac yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Er enghraifft:
  - ym mis Mai 2019, gwnaeth y BGC y canlynol:
    - cytuno i ariannu hyfforddiant i 500+ o reolwyr strategol a gweithredol ar draws y bartneriaeth ehangach ar gyfranogiad ac ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc. Mae rhan o'r hyfforddiant hwn ar gyfer rheolwyr i ddeall y ddarpariaeth llesiant a'r hyn a ddisgwylir ganddynt ac i gyfrannu at y ddarpariaeth llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc.

[4] Gweler Atodiad 1

    - cymeradwyo'r argymhellion i ymgorffori safonau cyfranogi cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc fel rhan ganolog o'u cynllunio strategol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.
    - cytuno bod person ifanc yn mynychu'r Bwrdd fel aelod. Bydd y person ifanc yn ymuno â'r Bwrdd fis Medi 2019.
  - ym mis Medi 2018 cytunodd y BGC i ddatblygu 'senedd ieuenctid' Torfaen.
- mae'r Cyngor yn bwriadu treialu'r ddarpariaeth llesiant â grŵp cynrychioliadol o weithwyr proffesiynol yn ystod hydref 2019. Mae'r Cyngor yn bwriadu ymgorffori'r adborth yn nyluniad pellach y ddarpariaeth llesiant a chynnal treial ehangach â'r holl weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

26 Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol fel rhai i'w gwella:

- er y gall penderfyniadau a wnaed gan y BGC arwain at fwy o ymgysylltu a sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn ystod eang o faterion, nid yw'r Cyngor wedi cynnwys plant a phobl ifanc hyd yma yn natblygiad y ddarpariaeth llesiant. Felly, mae angen meddwl sut y gellid cynnwys plant a phobl ifanc yn nyluniad y ddarpariaeth i sicrhau ei bod yn hygyrch ac yn apelio at bob oedran. Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor gynlluniau i gynnwys pobl ifanc tan ar ôl y treial â phartneriaid a gweithwyr proffesiynol
- ystyriaeth i anghenion pob grŵp o blant a phobl ifanc, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig, i sicrhau bod y ddarpariaeth llesiant yn berthnasol a hygyrch iddynt.

## Nid yw'r Cyngor hyd yma wedi egluro beth yw canlyniadau arfaethedig ei ddarpariaeth llesiant ac nid yw wedi datblygu cynllun cyflawni tymor hir hyd yma

### Yr hyn y chwiliwyd amdano

27 Buom yn chwilio am dystiolaeth o:

- dealltwriaeth drylwyr o anghenion cyfredol a thymor hir a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros amserlen briodol;
- adnoddau a ddyrannwyd i sicrhau buddiannau tymor hir; a
- monitro ac adolygu priodol.

28 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer y 'tymor hir' a ganfuwyd ac a ddefnyddiwyd gennym fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

## Yr hyn a ganfuwyd

29 Canfuwyd y cryfderau canlynol:

- mae'r ddarpariaeth llesiant yn ceisio llunio cronfa ddata o'r holl weithgareddau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yn Nhorfaen i hybu llesiant plant a phobl ifanc ar lefel gorfforol ac emosiynol; (gan y Cyngor a chan sefydliadau eraill)
- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â'r BGC a'r Bwrdd Plant a Phobl Ifanc i gytuno ar y trefniadau llywodraethu newydd, i gynllunio ar gyfer ac i fonitro'r ddarpariaeth llesiant.

Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- er bod y Cyngor wedi pwysleisio pwysigrwydd llesiant corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc oherwydd y cysylltiadau rhwng llesiant a chyflawni potensial mewn bywyd, dywed swyddogion mai dyhead yw'r ddarpariaeth llesiant, a bod angen ei datblygu'n gynnyrch gyda chanlyniadau pendant
- nid oes llawer o dystiolaeth yng nghynllun 2019-20 y Cyngor 'Gwella lles yn Nhorfaen' sy'n egluro'r materion a'r heriau tymor hir sy'n gysylltiedig â llesiant cyfredol a dyfodol pob plentyn a pherson ifanc
- mae 'is-grŵp llesiant' yn rhan o drefniadau llywodraethu'r BGC ac mae'n ofynnol bod ganddo gynllun gweithredu gyda chamau gweithredu tymor byr, canolig a hir. Fodd bynnag, nid yw'r camau hyn wedi'u mynegi'n glir eto ac nid ydynt ar gael i'r holl bartneriaid ac nid oes gan y Cyngor gynllun cyflawni tymor hir
- mae datganiad llesiant 2018-19 y Cyngor yn cyfeirio at effaith ddisgwyliedig wrth i '[p]lant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael gwybod am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i hyrwyddo iechyd a llesiant. Bydd hyn yn cael effaith ar ystod o fesurau llesiant, fel gwell cyrhaeddiad.' Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor hyd yma wedi diffinio'r ystod o fesurau llesiant y bydd y ddarpariaeth yn cyfrannu atynt
- mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y gwasanaethau a'r cyfleoedd a fydd ar gael i blant a phobl ifanc drwy'r ddarpariaeth llesiant newid ac esblygu dros amser. Mae'n hanfodol felly bod gan 'gronfa ddata' y ddarpariaeth llesiant ddigon o adnoddau i sicrhau ei bod yn gyfoes ac yn berthnasol i bobl ifanc, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol
- dywedodd swyddogion wrthym fod llawer o'r gwasanaethau a all gyfrannu at y 'ddarpariaeth llesiant' yn dibynnu ar gyllid allanol i weithredu ac y gallai hwnnw fod yn gyllid tymor byr. Dywedodd swyddogion fod hyn yn rhwystr

[5] Gweler Atodiad 1

amlwg wrth geisio cynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio â phartneriaid y BGC a grwpiau ehangach i sicrhau bod yr holl gyllid, gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu hariannu am y tymor byr, yn cael mwy o effaith.

## Nid yw'r Cyngor hyd yma wedi pennu buddiannau ataliol cyflawni ei ddarpariaeth llesiant

### Yr hyn y chwiliwyd amdano

30 Buom yn chwilio am dystiolaeth o:

- dealltwriaeth drylwyr o natur a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu waethygu;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y bydd buddiannau ataliol yn cael eu cyflawni; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam i atal problemau rhag digwydd neu waethygu.

31 Cafodd ein harchwiliad ei lywio hefyd gan y dangosyddion positif ar gyfer 'atal' a ganfuwyd gennym ac a ddefnyddiwyd fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuwyd

32 Canfuwyd y cryfder canlynol:

- mae'r Cyngor wedi neilltuo adnoddau i ddatblygu 'cronfa ddata' y ddarpariaeth llesiant ac mae wedi penodi swyddog i weithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer holl wasanaethau a phartneriaid y Cyngor yn ystod ei datblygiad.

Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- nid yw'r Cyngor hyd yma wedi dangos tystiolaeth lawn o gyflwr presennol llesiant plant a phobl ifanc
- nid yw'r Cyngor hyd yma wedi nodi'r hyn y bydd y ddarpariaeth llesiant yn ei atal, yn ei leihau neu ei wella i blant a phobl ifanc
- mae swyddogion y Cyngor wedi sôn am rinweddau ymyriadau sy'n seiliedig ar leoedd fel y bydd angen i ymyriadau gael eu targedu at y lleoedd cywir ar yr adegau cywir os am weld buddiannau ataliol. Nododd swyddogion y Cyngor y gellid dysgu gwersi wrth weithredu'r ddarpariaeth llesiant o fodelau sy'n seiliedig ar leoedd sydd wedi'u mabwysiadu eisoes gan y Cyngor mewn ardaloedd fel Blaenafon a Threfddyn ac mewn gofal cymdeithasol i oedolion.

[6] Gweler Atodiad 1

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

33 Ar ôl inni gwblhau ein gwaith maes cyflwynwyd ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Hydref 2019 lle'r oedd uwch swyddogion o adran addysg y Cyngor yn bresennol, ynghyd â swyddogion o'r Bwrdd Iechyd Prifysgol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen. Yn y gweithdy hwn, dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau, ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy a rhagor o fyfyrio ar ein canfyddiadau mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

Arddangosyn 2: Camau gweithredu'r Cyngor

| Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai | Camau Gweithredu | Amserlenni |
|---|---|---|
| | **Tymor hir** | |
| **LT1** – Er bod y Cyngor wedi pwysleisio pwysigrwydd llesiant corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc oherwydd y cysylltiadau rhwng llesiant a chyflawni potensial mewn bywyd, dywed swyddogion mai dyhead yw'r ddarpariaeth llesiant, a bod angen ei datblygu'n gynnyrch gyda chanlyniadau pendant. | Cam nesaf y gweithgarwch fydd diffinio'r canlyniadau rydym am eu cyflawni gyda set o fesurau diffiniedig. I wneud hyn byddwn yn edrych ar ba ddata yr ydym ni a'n partneriaid yn ei gasglu a sut yr ydym yn mesur cynnydd yn erbyn y canlyniadau diffiniedig. Isod mae rhai enghreifftiau o'r mathau o ddata y byddwn yn edrych arno:<br>• Data Plant sy'n Derbyn Gofal<br>• Data Presenoldeb a Chyflawniad<br>• Arolwg Ysgolion Llesiant<br>• Adolygiad o Lesiant Gwasanaeth Cyflawniad Addysgol<br>• Gwrth-fwlio<br>• Data Ieuenctid/Datblygiad Chwaraeon/Blynyddoedd Cynnar<br>• Data Cymdeithasau Tai – data teuluoedd sy'n cael cymorth<br>• Prydau Ysgol am Ddim<br>• Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Gwybodaeth a gedwir gan yr Ymddiriedolaeth Hamdden<br>• Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | I'w gwblhau erbyn Mehefin 2020 |

| Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai | Camau Gweithredu | Amserlenni |
|---|---|---|
| | **Tymor hir** | |
| **LT2** – Nid oes llawer o dystiolaeth yng nghynllun 2019-20 y Cyngor 'Gwella lles yn Nhorfaen' sy'n egluro'r materion a'r heriau tymor hir sy'n gysylltiedig â llesiant cyfredol a dyfodol pob plentyn a pherson ifanc. | Bydd yr arolwg data a nodwyd uchod yn llywio'r gwaith hwn. Bydd y Cyngor yn ystyried y materion a'r heriau tymor hir a nodwyd yn yr arolwg data a thrwy waith â phartneriaid, ac yn adrodd yn erbyn gweithgarwch y flwyddyn flaenorol. Byddwn yn adolygu cynlluniau partneriaid a'r data sydd ar gael i sicrhau ein bod yn croesgyfeirio tystiolaeth sydd ar gael. | Cylch cynllunio 2020-21 |

| Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai | Camau Gweithredu | Amserlenni |
|---|---|---|
| | **Tymor hir** | |
| **LT3** – Mae 'is-grŵp llesiant' yn rhan o drefniadau llywodraethu'r BGC ac mae'n ofynnol bod ganddo gynllun gweithredu gyda chamau gweithredu tymor byr, canolig a hir. Fodd bynnag, nid yw'r camau hyn wedi'u mynegi'n glir eto ac nid ydynt ar gael i'r holl bartneriaid ac nid oes gan y Cyngor gynllun cyflawni tymor hir. | Cam nesaf datblygiad Is-grŵp y Ddarpariaeth Llesiant yw datblygu cynllun gweithredu ar gyfer 2020-21, a phan fydd hwn wedi'i ddatblygu caiff ei ddosbarthu gan aelodau'r is-grŵp ymhlith eu sefydliadau, a bydd yn cyfrannu at y cynllun gweithredu Amcan 3 ar gyfer 2020-21. | I'w gwblhau erbyn Mawrth 2020. |
| **LT4** – Mae datganiad llesiant 2018-19 y Cyngor yn cyfeirio at effaith ddisgwyliedig wrth i '[p]lant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael gwybod am yr ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael i hyrwyddo iechyd a llesiant. Bydd hyn yn cael effaith ar ystod o fesurau llesiant, fel gwell cyrhaeddiad.' Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor hyd yma wedi diffinio'r ystod o fesurau llesiant y bydd y ddarpariaeth yn cyfrannu atynt. | Yng nghynlluniau'r dyfodol bydd mesurau llesiant yn cael eu diffinio a'u cysylltu â'r gwaith a ddisgrifir yn **LT1**. | I'w gwblhau erbyn Mehefin 2020 |

| Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai | Camau Gweithredu | Amserlenni |
|---|---|---|
| | **Tymor hir** | |
| **LT5** – mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y gwasanaethau a'r cyfleoedd a fydd ar gael i blant a phobl ifanc drwy'r ddarpariaeth llesiant newid ac esblygu dros amser. Mae'n hanfodol felly bod gan 'gronfa ddata' y ddarpariaeth llesiant ddigon o adnoddau i sicrhau ei bod yn gyfoes ac yn berthnasol i bobl ifanc, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. | Trwy brosiect Trawsnewid y Cyngor (T22), sy'n adolygu sut yr ydym yn darparu gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc. Byddwn yn datblygu'r cynnyrch Llesiant, ac yn diffinio anghenion o ran adnoddau a gofynion o ran cyllido.<br>Mae'n debygol y bydd y Cyngor yn mynd ati i fireinio'r wybodaeth sydd ar gael gan Dewis er mwyn osgoi dyblygu ac i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol ei ddefnyddio. | Cam dylunio cychwynnol Mawrth 2020. |
| **LT6** – Dywedodd swyddogion wrthym fod llawer o'r gwasanaethau a all gyfrannu at y 'ddarpariaeth llesiant' yn dibynnu ar gyllid allanol i weithredu ac y gallai hwnnw fod yn gyllid tymor byr. Dywedodd swyddogion fod hyn yn rhwystr amlwg wrth geisio cynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio â phartneriaid y BGC a grwpiau ehangach i sicrhau bod yr holl gyllid, gan gynnwys rhaglenni sy'n cael eu hariannu am y tymor byr, yn cael mwy o effaith. | Rydym wedi cydnabod bod cyllid tymor byr yn achosi anawsterau; i roi sylw i hyn rydym wedi ceisio nodi ffynhonnell/ffynonellau cyllido ac amserlenni'r gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y ddarpariaeth llesiant hyd yma. Byddwn yn parhau i weithio â phob partner i fapio'r wybodaeth hon gyda'r nod o ganfod bylchau yn y ddarpariaeth a lle mae gorgyffwrdd posibl yn digwydd, fel y gallwn wneud defnydd gwell o ffynonellau cyllido ac ystyried uno cyllid ymhellach mewn rhaglenni penodol a ddarperir gan bartneriaethau. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon yn is-grwpiau'r bartneriaeth, fel Llwybrau Positif fel y gellir ei defnyddio i lywio ein rhaglen waith. | Ar waith |

| **Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai** | **Camau Gweithredu** | **Amserlenni** |
|---|---|---|
| | **Cynnwys** | |
| **INV1** – Er y gall penderfyniadau a wnaed gan y BGC arwain at fwy o ymgysylltu a bod mwy o bobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn ystod eang o faterion, nid yw'r Cyngor wedi cynnwys plant a phobl ifanc hyd yma yn natblygiad y ddarpariaeth llesiant. Felly, mae angen meddwl sut y gellid cynnwys plant a phobl ifanc yn nyluniad y ddarpariaeth i sicrhau ei bod yn hygyrch ac yn apelio at bob oedran. Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor gynlluniau i gynnwys pobl ifanc tan ar ôl y treial â phartneriaid a gweithwyr proffesiynol. | Ar ôl cwblhau treial o'r pecyn cymorth i weithwyr proffesiynol bydd gennym well syniad o'r hyn y gall y ddarpariaeth Llesiant ei gyflawni. Er y bydd pecyn cymorth Llesiant ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol, Plant a Phobl Ifanc a'u teuluoedd yn defnyddio'r un wybodaeth i bob pwrpas am y gwasanaeth a ddarperir, rydym yn rhagweld y gallai ymddangosiad a theimlad y cynnyrch hwn fod yn wahanol i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i ddarparwyr. Pan fyddwn yn dechrau dylunio'r cynnyrch a fydd yn cael ei ddefnyddio gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd byddwn yn cynnwys plant, pobl ifanc a'u theuluoedd yn llawn yn y broes ddylunio, a byddwn yn gwneud hyn drwy ein Fforymau Ieuenctid, Cynghorau Ysgolion a Grwpiau Rhieni ac, ar ôl iddo gael ei sefydlu, 'Senedd Ieuenctid' Torfaen. | Ymdrechir i'w gwblhau erbyn mis Hydref 2020. |
| **INV2** – Rhoddir ystyriaeth i anghenion pob grŵp o blant a phobl ifanc, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig, i sicrhau bod y ddarpariaeth llesiant yn berthnasol a hygyrch iddynt. | Wrth inni ddatblygu ein 'Senedd Ieuenctid' byddwn yn edrych sut y gallan gynnwys lleisiau pob Plentyn a Pherson Ifanc, gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig, rhai nad ydynt yn aelodau o Fforymau neu Gynghorau Ysgolion, a'r plant ieuengaf.<br>Byddwn yn ystyried sut y gallai setiau data, a datrysiadau a phlatfformau electronig helpu pobl i ryngweithio, a'n helpu, a byddwn yn parhau i ddatblygu dull arsylwi gyda'n plant Cyn-ysgol, gyda chyfraniad ein Hymwelwyr Iechyd a'n tîm Dechrau'n Deg. | Ymdrechu i'w gwblhau erbyn Mehefin 2020. |

| Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai | Camau Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Cydweithredu** | |
| **COL 1** – Hyd yma, mae'r Cyngor wedi treulio dwy flynedd yn meithrin cysylltiadau â phartneriaid eraill i ddatblygu'r ddarpariaeth llesiant mewn un gronfa ddata gydag un pwynt cyswllt. Ar adeg ein hadolygiad, fodd bynnag, nid oedd y Cyngor wedi diffinio ei gerrig milltir tymor byr, canolog na hir er mwyn darparu darpariaeth llesiant cydlynus yn electronig i blant a phobl ifanc, rhieni neu ofalwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio â phlant a phobl ifanc. | Byddwn yn datblygu cerrig milltir tymor byr, canolig a hir â phartneriaid o dan y gwaith a ddisgrifiwyd yn **LT1**. | I'w gwblhau erbyn Mehefin 2020 |
| **COL 2** – Dylai'r Cyngor ystyried ymgysylltu â'r ystod o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i sicrhau bod pob gweithgarwch perthnasol yn cael ei gofnodi yn y ddarpariaeth llesiant | Byddwn yn gwneud rhagor o waith ymgysylltu ag Ysgolion a'r Trydydd Sector (gweithio â Chynghrair Gwirfoddol Torfaen). Byddwn yn ymdrechu i sicrhau ein bod y cynnwys grwpiau cymunedol ehangach, fel grwpiau ffydd a grwpiau gweithgarwch lleol. Byddwn yn ystyried sut i ymgysylltu â grwpiau rhieni a phlant a phobl ifanc yn uniongyrchol drwy Fforymau a Chynghorau Ysgolion i gynyddu nifer y gweithgareddau a gofnodir. Byddwn yn defnyddio adborth o ardaloedd y treial mewn ysgolion a'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol Gofal Cymdeithasol i helpu i ganfod bylchau yn y gweithgarwch sydd wedi'i fapio. Gallwn wneud hyn drwy brosiect Trawsnewid y Cyngor (T22), sy'n adolygu sut yr ydym yn darparu gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc, i weld a allai rôl gwybodaeth, cyngor a chymorth helpu partneriaid i ymuno i sicrhau bod pob sefydliad yn gallu ymuno wedyn â'r ddarpariaeth llesiant. | Ar waith |

| Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai | Camau Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Cydweithredu** | |
| **COL 3** – Dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym fod ganddynt ddull sy'n canolbwyntio o ddifrif ar yr unigolyn wrth ddatblygu darpariaeth llesiant i bob plentyn a pherson ifanc. I sicrhau bod y ddarpariaeth llesiant yn un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae angen rhagor o waith rhwng partneriaid i edrych ar y gwahanol rwystrau sy'n eu hatal rhag manteisio ar y ddarpariaeth llesiant y gallai gwahanol grwpiau o blant a phobl ifanc fod yn eu hwynebu<br><br>Dywedodd swyddogion y Cyngor fod partneriaid mewn gwirionedd yn defnyddio systemau cofnodi data a chronfeydd data gwahanol ar gyfer eu cleientiaid eu hunain ac y byddai'n fuddiol i wybod pa bryd a pha wasanaethau y gall plant a phobl ifanc eu defnyddio drwy'r ddarpariaeth llesiant | Drwy grwpiau fel y Grŵp Llwybrau Positif (PPG) byddwn yn ystyried sut a pha wybodaeth yr ydym yn ei chasglu a beth fyddai buddiannau rhannu'r wybodaeth honno (gan gydymffurfio ag amodau'r GDPR) byddwn yn ystyried a allai rhai gwasanaethau fod yn defnyddio'r un cronfeydd data, yn enwedig yn fewnol, fel y Gwasanaeth Ieuenctid, Chwarae a Datblygu Chwaraeon. | Ar waith |

| Meysydd i’w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai | Camau Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Cydweithredu** | |
| **COL 4** – Mae gan y Cyngor ymrwymiad cryf i gynnwys partneriaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn natblygiad y ddarpariaeth lles. Fodd bynnag, nid yw plant a phobl ifanc wedi cael eu cynnwys hyd yma. | Fel y nodwyd yn **INV1** bydd y Plant a Phobl Ifanc yn cael eu cynnwys cyn gynted ag y byddwn wedi mynd heibio’r cam mapio ac wedi dysgu mwy yn sgil y treialon â gweithwyr proffesiynol. Byddwn yn eu gwahodd i’n helpu i gyd-ddylunio’r cynnyrch drwy grwpiau fel y ‘Senedd Ieuenctid’ (pan fydd wedi’i sefydlu), Fforymau Ieuenctid a Chynghorau Ysgolion. Byddwn hefyd yn cynnwys rhieni a theuluoedd yn y broses ddylunio. | O Fehefin 2020. |

| Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai | Camau Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Atal** | |
| **PRE1** – Nid yw'r Cyngor hyd yma wedi dangos tystiolaeth lawn o gyflwr presennol llesiant plant a phobl ifanc<br>. | Byddwn yn adolygu'r data rydym yn ei gasglu neu mae gennym fynediad ddata fel:<br>• Arolwg Ysgolion Llesiant<br>• Adolygiad Llesiant y Gwasanaeth Cyflawniad Addysgol<br>• Dinas Hapus<br>• Arolwg Gwrth-fwlio<br>• Ieuenctid/Datblygu Chwaraeon/Blynyddoedd Cynnar<br>• Mosaic<br>• Gwent Iachach<br>Bydd yn ein helpu i greu darlun o gyflwr presennol llesiant i Blant a Phobl Ifanc yn Nhorfaen. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gysylltu â'r gweithgarwch a ddisgrifiwyd yn **LT1 a COL1**. | Mehefin 2020. |
| **PRE2** – Nid yw'r Cyngor hyd yma wedi nodi'r hyn y bydd y ddarpariaeth llesiant yn ei atal, yn ei leihau neu ei wella i blant a phobl ifanc | Ar y cyd â'r gweithgarwch a nodwyd yn **PRE1**, **LT1 a COL1** byddwn yn gweithio â'r Tîm Data yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a phartneriaid, yn enwedig Iechyd y Cyhoedd yn achos eu rhaglen Gwent Iachach i ddangos beth rydym yn gobeithio ei atal, ei leihau neu ei wella i blant a phobl ifanc. | Mehefin 2020. |
| **PRE3** – Mae swyddogion y Cyngor wedi sôn am rinweddau ymyriadau sy'n seiliedig ar leoedd fel y bydd angen i ymyriadau gael eu targedu at y lleoedd cywir ar yr adegau cywir os am weld buddiannau ataliol. | Byddwn yn adolygu canfyddiadau'r dulliau sy'n seiliedig ar leoedd sy'n weithredol yn Nhorfaen ar hyn o bryd ac yn ystyried eu rhinweddau ataliol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. | Ar waith |

| Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai | Camau Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Atal** | |
| **PRE4** – Nododd swyddogion y Cyngor y gellid dysgu gwersi wrth weithredu'r ddarpariaeth llesiant o fodelau sy'n seiliedig ar leoedd sydd wedi'u mabwysiadu eisoes gan y Cyngor mewn ardaloedd fel Blaenafon a Threfddyn ac mewn gofal cymdeithasol i oedolion. | Byddwn yn edrych ar bosibiliadau gweithio sy'n seiliedig ar leoedd drwy brosiectau fel prosiect Trawsnewid y Cyngor (T22), sy'n adolygu sut yr ydym yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc, prosiect T22. Byddwn yn gweithio â phartneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gael dealltwriaeth well o'r hyn mae Rhwydweithiau Llesiant Integredig a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei gyflawni, ac yn edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael. | Ar waith |

| Meysydd i'w Datblygu fel y Nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a Gweithdai – Ffordd o Weithio – Integreiddio | Camau Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Integreiddio** | |
| **INT1** – Mae fframwaith adrodd ar berfformiad yn cael ei ddefnyddio i fonitro ac adolygu cynnydd yn erbyn nod y BGC bod 'pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd'. Ar adeg ein gwaith maes nid oedd gan y Cyngor ddull corfforaethol i fonitro ac adolygu cynnydd yn rheolaidd i gyflawni ei amcanion llesiant. Dywedodd y Cyngor fod rôl y sesiynau Asesu Perfformiad Corfforaethol (CPA) yn cael ei gweld fel fforwm posibl i fonitro cynnydd yn erbyn ei amcanion llesiant. | Byddwn yn mabwysiadu'r dull mwyaf priodol o fonitro, adolygu ac adrodd yn rheolaidd ar gynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i 'roi i blant a phobl ifanc y dechrau gorau posibl mewn bywyd' – fel rhan o hyn byddwn yn ystyried sesiynau CPA a sesiynau craffu eraill. | Ebrill 2020. |

34 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth weithredu'r camau hyn, ac i ba raddau y mae'n rhoi sylw i'r materion a nodwyd gennym, yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Positif o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn dangos 'dangosyddion positif' o bob un o'r pum ffordd o weithio a nodwyd gennym ac y byddwn yn eu defnyddio i oleuo ein hasesiadau i weld i ba raddau mae cyrff yn mabwysiadu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (SDP). Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid edrych arnynt fel 'dangosyddion' a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na fel 'penderfynyddion' i weld i ba raddau y mae corff yn gweithredu'n unol â'r SDP i gymryd camau i gyflawni'r amcanion llesiant.

Arddangosyn 3: Dangosyddion Positif o'r Pum Ffordd o Weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd dymor hir o weithio? |
|---|
| • Mae ganddo ddealltwriaeth glir o'r hyn mae 'tymor hir' yn ei olygu yng Nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Mae wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan/ion llesiant ac maent yn cyfrannu at ei weledigaeth dymor hir.<br>• Mae wedi dylunio'r cam i gyflawni buddiannau tymor byr neu ganolig, sydd wedi'u cydbwyso â'r effaith dros y tymor hir (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Mae wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig o angen a phwysau'r presennol a'r dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, mae dealltwriaeth gynhwysfawr o risgiau a chyfleoedd y presennol a'r dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi'u neilltuo i sicrhau bod buddiannau tymor hir yn ogystal â rhai tymor byr yn cael eu cyflawni.<br>• Mae pwyslais ar gyflawni canlyniadau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi pan fydd canlyniadau'r cael eu cyflawni dros y tymor hir.<br>• Mae yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i gyflawni buddiannau dros y tymor hwy.<br>• Mae yn gwerthfawrogi deallusrwydd ac yn mabwysiadu dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn gweithredu'r ffordd ataliol o weithio?** |
| • Mae'r corff yn ymdrechu i ddeall achosion sylfaenol problemau fel y bydd modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n ymestyn dros genedlaethau.<br>• Mae'r corff yn gweld heriau o safbwynt y system gyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r buddiannau tymor hir a all ddod i bobl a lleoedd yn eu sgil.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau ar gyfer gweithredu ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ganlyniadau a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed pan fydd hyn yn cyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion tymor byr.<br>• Mae trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth gweithredu ataliol ac sy'n derbyn dirywiad tymor byr mewn perfformiad ac adnoddau er mwyn cyflawni gwelliannau arfaethedig o ran canlyniadau a defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn mabwysiadu dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall beth mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Mae hyn yn cael ei adleisio yn eu gwaith â chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y ddibyniaeth ar draws sefydliadau i gyflawni'r uchelgais a'r amcanion.<br>• Mae diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Mae dealltwriaeth wedi datblygu'n dda o'r modd y mae amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio'n rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i gynyddu eu cyfraniad ar draws yr amcanion llesiant ac i leihau effeithiau negyddol.<br>• Mae llywodraethu, strwythurau a phrosesau yn ategu hyn, ac ymddygiadau hefyd. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithredu'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn rhoi pwyslais ar le, cymuned a chanlyniadau yn hytrach nag ar ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda o amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i hybu gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd positif ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall pob partner eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ymdrechu i fabwysiadu prosesau a ffyrdd o weithio a rennir, pan fydd hynny'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Bod â dealltwriaeth o bwy sydd angen eu cynnwys, a pham.<br>• Myfyrio ar ba mor dda mae anghenion a heriau'r bobl hynny wedi'u deall ar y pryd.<br>• Gweithio mewn ffordd gyd-gynhyrchiol, gweithio â rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Gweld safbwyntiau rhanddeiliaid fel ffynhonnell gwybodaeth holl bwysig a fydd yn helpu i gyflawni canlyniadau gwell.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth â rhanddeiliaid a lle mae deialog barhaus a lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall beth yw effaith eu cyfraniad.<br>• Gofyn am adborth gan randdeiliaid allweddol a fydd yn cael ei ddefnyddio i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru